OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1308 (Cy. 161)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mai 2011* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mehefin 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 5 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o'r pwynt croesi oddeutu 50 o fetrau i'r gogledd o Dwneli Gibraltar i'r pwynt croesi oddeutu 400 o fetrau i'r de o'r twneli hynny;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru, ar gerbytffordd tua'r dwyrain na cherbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd.

**4.** (1) Tra bo symud traffig wedi'i wahardd gan erthygl 3 ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 6, heb ei wahardd ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar lôn allanol cerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Tra bo symud traffig wedi'i wahardd gan erthygl 3 ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 6, heb ei wahardd ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar lôn allanol cerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

23 Mai 2011

*G Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.